Sgrinio Clyw Babanod Cymru
Newborn Hearing Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2021-22



# Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

**Diogelu iechyd** — darparu gwybodaeth a chyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

**Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig** — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

**Microbioleg** — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

**Diogelu** — darparu arbenigedd a chyngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

**Sgrinio** — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

**Gwybodaeth iechyd** — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

**Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG** — darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

**Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol** — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

**Gwella iechyd** — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd


## Rhagor o wybodaeth

| | |
|---|---|
| Gwefan: | icc.gig.cymru |
| E-bost: | ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk |
| Twitter: | @IechydCyhoeddus |
| Facebook: | facebook.com/iechydcyhoedduscymru |

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Sgrinio Clyw Babanod Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2021 tan ddiwedd mis Mawrth 2022. Nodir y canlyniadau fesul Bwrdd Iechyd ac maent wedi'u dadansoddi i ddangos lleoliad yr ysbyty lle mae sgrinio neu asesu wedi'u cynnal mewn rhai achosion. Mae rhagor o fanylion ar gael ar gais.

**Manylion Cyhoeddi:**

**Teitl:** Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2021-22

**Dyddiad:** Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn Hydref 2024

**ISBN:** 978-1-83766-504-4

**I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn cysylltwch â:**
Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Gwasanaethau Digidol, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405

E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

**Datganiad Sicrhau Ansawdd**

Mae cofnodion sgrinio data yn cael eu diweddaru’n barhaus. Mae’r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru’n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi’i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy’n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data yn cael eu diweddaru'n barhaus a gall fod mân ailaddasiadau yn y niferoedd a ddyfynnir yn y ddogfen hon o un flwyddyn i'r llall oherwydd adnewyddu data.

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon heb ganiatâd ymlaen llaw ar yr amod y gwneir hynny'n gywir a heb ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.
Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae’r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a’r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cynnwys

**1 CYFLWYNIAD ...... 6**
1.1 'Negeseuon allweddol' i rieni ...... 6
1.2 Cyflawni'r rhaglen ...... 6
1.3 Llwybr sgrinio ...... 7
1.4 Effaith COVID-19 ar NBHSW ...... 8
1.5 Safonau gwasanaeth diwygiedig ...... 8

**2 PENAWDAU YSTADEGOL ...... 9**

**3 DATA ...... 10**
3.1 Safonau ...... 10
3.2 Cwmpas ...... 14
3.3 Amseroldeb y profion ...... 15
3.4 Presenoldeb mewn apwyntiadau sgrinio i fabanod iach ...... 17
3.5 Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio ...... 19
3.6 Canlyniadau Sgrinio ...... 20
3.7 Atgyfeiriadau ar gyfer asesu ...... 22
3.8 Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu - babanod iach a risg uchel 23
3.9 Yr amser a gymerir i ddechrau a chwblhau asesiadau ...... 24
3.10 Cadarnhau colled clyw ...... 26
3.11 Gosod cymorth clyw ...... 28
3.12 Deilliant, Sensitifrwydd, Penodoldeb a Gwerthoedd Rhagfynegol 29

**4 DIFFINIADAU ...... 30**

**5 TÎM CYNHYRCHU ...... 31**

# Tablau a Graffiau

Tabl 1:Safonau perfformiad y rhaglen ............................................... 100
Tabl 2:Cyfanswm nifer y genedigaethau byw yn ôl Bwrdd Iechyd, babanod cymwys ac addas, nifer a chyfran a gydsyniodd ac a brofwyd................. 144
Graff 1: Amseroldeb babanod iach sy'n cael eu prawf cyntaf yn yr ysbyty 155
Graff 2: Amseroldeb babanod iach sy'n cael eu prawf cyntaf yn y gymuned ........................................................................................... 155
Graff 3: Babanod iach a gwblhaodd sgrinio o fewn 28 diwrnod.................. 16
Tabl 3.i: Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio Cymru gyfan ........................................................................................... 177
Tabl 3.ii: Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio fesul ....... 18
Bwrdd Iechyd.................................................................................. 18
Graff 4: Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio ................................... 19
Tabl 4: Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod iach.................................. 20
Tabl 5: Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod risg uchel ....................... 211
Tabl 6: Atgyfeiriadau ar gyfer asesu ................................................. 222
Tabl 7.i: Presenoldeb Cymru gyfan mewn apwyntiadau asesu (gan gynnwys clinig cymunedol ac ysbyty y tu allan i Gymru).................................... 233
Tabl 7.ii: Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu yn ôl Bwrdd Iechyd ...... 233
Tabl 8: Amser a gymerir i ddechrau asesiad.......................................... 24
Tabl 9.i: Amser Cymru Gyfan a gymerwyd i gwblhau'r asesiad .............. 255
Tabl 9.ii: Amser a gymerir i gwblhau asesiad fesul Ysbyty..................... 266
Tabl 10: Nifer y babanod ag achosion a gadarnhawyd o golled clyw a anwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn ôl Rhanbarth......................... 277
Tabl 11: Oedran cadarnhau colled clyw ............................................. 277
Tabl 12: Oedran pan osodwyd y cymorth clyw...................................... 28
Graff 5: Gosod cymorth clyw o fewn pedair wythnos i nodi colled clyw yn ôl Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021 – 2022..................................................... 29

# 1 Cyflwyniad

Dyma'r deunawfed adroddiad ystadegol blynyddol i'w gyhoeddi gan Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW). Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Caiff un neu ddau o fabanod o bob 1,000 eu geni â cholled clyw a all effeithio ar ddatblygiad eu lleferydd ac iaith. Lansiwyd NBHSW yn 2003 ac mae'n ceisio nodi'r babanod hyn mor gynnar â phosibl, oherwydd bod tystiolaeth yn dangos bod cyflwyno rhaglen gymorth gynnar cyn chwe mis oed yn arwain at well canlyniadau o ran datblygiad lleferydd ac iaith.

## 1.1 ‘Negeseuon allweddol’ i rieni

- Mae sgrinio clyw babanod yn nodi a oes gan eich babi golled clyw a allai effeithio ar ei ddatblygiad lleferydd ac iaith heb gymorth cynnar
- Caiff pob baban a enir i fenywod sy'n byw yng Nghymru gynnig sgrinio clyw babanod yn fuan ar ôl genedigaeth
- Caiff sgrinio ei gynnig naill ai pan fyddwch yn dal yn yr ysbyty ar ôl genedigaeth eich baban, neu wythnos neu ddwy yn ddiweddarach, fel arfer mewn clinig lleol
- Mae babanod y bu angen gofal arbennig arnynt fel arfer yn cael eu sgrinio clyw cyn iddynt fynd adref
- Nid yw'r profion sgrinio yn brifo nac yn niweidio eich babi
- Nid yw sgrinio'n nodi'r holl golled clyw nac yn ei atal ar ddyddiad diweddarach
- Eich dewis chi yw sgrinio clyw eich baban. Bydd y sgriniwr clyw babanod a'r daflen “Prawf Sgrinio Clyw eich Babi” yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

## 1.2 Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen Sgrinio Clyw Babanod. Tan fis Rhagfyr 2021, roedd NBHSW yn un o dair rhaglen ym maes Sgrinio Mamau a Phlant , a oedd yn rhannu Arweinydd Rhaglen cyffredinol. Roedd Sgrinio Mamau a Phlant yn ymgorffori NBHSW, Sgrinio Cyn Geni Cymru a Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru. O fis Rhagfyr 2021, rhannwyd y swyddogaeth Mamau a Phlant, gydag un Pennaeth Rhaglen yn arwain Sgrinio Cyn Geni Cymru, ac un arall yn gyfrifol am NBSW ac NBHSW.

Mae'r rhaglen yn cael ei gweinyddu a'i chyflawni mewn tri Rhanbarth ledled Cymru ac mae'n cyflogi Cydlynwyr, Rheolwyr Sgrinio, Sgrinwyr a staff gweinyddol.

Mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn cwmpasu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae Rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn cwmpasu safleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg heblaw am Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae sgrinio babanod ym Mhowys yn cael ei rannu ar draws y tri Rhanbarth gan ystyried agosrwydd daearyddol a'r defnydd mwyaf effeithiol o staff ac adnoddau. Darperir asesiad diagnostig a chymorth cynnar gan rwydwaith clinigol o awdiolegwyr ac arweinwyr meddygol (meddygon) ym mhob Bwrdd Iechyd.

## 1.3 Llwybr sgrinio

Caiff babanod sy'n gymwys ar gyfer eu sgrinio eu nodi ym mhob Bwrdd Iechyd gan hysbysiadau geni bydwragedd. Mae Sgrinwyr Clyw Babanod yn cynnig profion sgrinio i fabanod sydd yn yr ysbyty, ac mewn clinigau cymunedol lle na fu'n bosibl cynnal y prawf sgrinio yn yr ysbyty. Mae'r rhan fwyaf o fabanod mewn gofal dwys i'r newydd-anedig neu unedau gofal babanod arbennig yn cael eu sgrinio cyn cael eu rhyddhau.

Caiff babanod iach sy'n cael ymateb clir mewn un neu'r ddwy glust mewn prawf sgrinio eu rhyddhau o'r rhaglen. Caiff rhieni babanod iach ag ymateb clir mewn un glust gynnig y cyfle i wneud trefniadau ar gyfer prawf clyw pellach. Caiff y rhai nad ydynt yn dangos ymateb clir yn y ddwy glust ar ddiwedd y broses sgrinio eu hatgyfeirio i gael asesiad diagnostig.

Caiff babanod risg uchel sy'n cael ymateb clir yn y ddwy glust mewn prawf sgrinio, eu rhyddhau o'r rhaglen. Caiff y rhai nad ydynt yn dangos ymateb clir mewn un neu'r ddwy glust ar ddiwedd y broses sgrinio eu hatgyfeirio i gael asesiad diagnostig.

Caiff babanod sy'n colli neu nad ydynt yn cwblhau sgrinio neu asesu gynnig prawf clyw gan eu Bwrdd Iechyd lleol pan fyddant tua naw mis oed.

Caiff asesiadau diagnostig eu cynnal gan awdiolegwyr mewn Byrddau Iechyd. Os yw'n briodol, caiff cymhorthion clyw eu gosod ar fabanod y nodwyd bod ganddynt golled clyw ac fe'u cynorthwyir gan dîm blynyddoedd cynnar amlddisgyblaethol. Mae'r tîm yn cynnwys meddyg arbenigol, athro/athrawes y byddar, awdiolegydd ac arbenigwr lleferydd ac iaith.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn
www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk

## 1.4 Effaith COVID-19 ar NBHSW

Cafodd pandemig Covid-19 effaith ar ddarparu gwasanaethau Sgrinio Clyw Babanod Cymru drwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.

Drwy gydol y pandemig cyfan, parhaodd Sgrinio Clyw Babanod i gael ei gyflwyno gan Sgrinwyr Clyw Babanod ledled Cymru ar y wardiau ôl-enedigol ac mewn Unedau Gofal Arbennig a Gofal Dwys Newydd-anedig gyda'r nod o gwblhau sgrinio clyw ar gyfer cynifer o fabanod â phosibl yn yr ysbyty. Roedd arferion gwaith yn destun newidiadau cyflym, sylweddol ac ailadroddus yn unol â chanllawiau er mwyn sicrhau diogelwch babanod, rhieni a staff.

Fodd bynnag, nid oedd pob babi yn gallu cwblhau ei sgrinio yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys babanod sy'n cael eu rhyddhau y tu allan i'r oriau a gwmpesir gan y Tîm Sgrinio Babanod, y babanod hynny a gafodd eu geni gartref neu mewn ysbytai nad oedd sgrinwyr wedi'u lleoli ynddynt a babanod mamau o brofodd yn bositif ar gyfer Covid.

Ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, parhaodd Clinigau Cymunedol ledled Cymru yn destun trefniadau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau lleoliadau lleol a effeithiodd ar nifer yr apwyntiadau y gellid eu cynnig. Yn ogystal, nid oedd rhai lleoliadau a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ddarparu clinigau NBHSW ar gael i'r gwasanaeth eu defnyddio.

Mae manylion llawn y camau gweithredu a gymerwyd gan NBHSW mewn ymateb i bandemig Covid-19, gan gynnwys newidiadau i'r model gwasanaeth a chyfranogiad gwasanaethau Awdioleg mewn sgrinio i'w canfod yn yr adroddiad ‘Newidiadau i Lwybr Sgrinio NBHSW yn ystod Covid 19’, sydd ar gael gan NBHSW ar gais.

## 1.5 Safonau gwasanaeth diwygiedig

Cynhaliodd y rhaglen adolygiad cynhwysfawr o safonau gwasanaeth yn ystod 2021-22. Gwnaed newidiadau i ddiffiniadau dangosyddion er mwyn cefnogi eglurder. Ni chafodd y canrannau a bennwyd fel safonau gofynnol eu cynyddu oherwydd effaith y pandemig ar ddarpariaeth NBHSW ac Awdioleg. Yn ogystal, cafodd pum safon eu dileu, naill ai oherwydd bod newidiadau i safonau eraill yn golygu nad oedd eu hangen mwyach, neu oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion monitro yn unig ac nad oeddent yn fuddiol bellach. Daeth y newidiadau i rym ym mis Tachwedd 2021. Lle gall y diffiniad wedi'i addasu effeithio ar berfformiad 2021-22 o gymharu â blynyddoedd blaenorol, rhoddir manylion am hyn yn yr adroddiad.

# 2 Penawdau ystadegol

## Sgrinio

- Mae'r cyfraddau cwmpasu yn dangos bod sgrinio wedi cael ei gynnig i 99.9% o fabanod cymwys (29,487) gyda 99.0% o fabanod cymwys wedi'u profi (29,180) a phrin iawn oedd y rhieni a wrthododd y sgrinio. Cafodd y safonau gwasanaeth eu cyrraedd.
- Ledled Cymru, cafodd 70.1% o fabanod iach eu sgrinio o fewn saith diwrnod i'w genedigaeth sy'n cyrraedd y safon 70%.
- Cwblhaodd 91.1% o fabanod iach sgrinio o fewn 28 diwrnod, gan gyrraedd y safon gwasanaeth.
- Cwblhaodd 100.0% o fabanod risg uchel y rhaglen sgrinio, gan gyrraedd y safon gwasanaeth.

## Asesu

- Cafodd 1.5% o'r babanod a sgriniwyd eu hatgyfeirio am asesiad awdioleg, yn unol â safonau gwasanaeth.
- Cwblhaodd 91.6% o fabanod a atgyfeiriwyd am asesiad awdioleg y broses asesu o fewn tri mis, gan gyrraedd y safon gwasanaeth.
- Cafodd yr amser a gymerwyd i ddechrau'r broses asesu ar gyfer babanod iach ei effeithio gan bresenoldeb mewn apwyntiadau a gynlluniwyd, gyda 96.3% o fabanod iach yn cael cynnig a chyrraedd y safon, ond dim ond 84.7% yn mynd i'w hapwyntiad (o fewn 28 diwrnod i'r prawf sgrinio terfynol).
- Roedd yr amser a gymerwyd i ddechrau'r broses asesu o fewn yr amser a ddyrannwyd ar gyfer 99.4% o fabanod risg uchel (o fewn 56 diwrnod i'r prawf sgrinio terfynol), gan gyrraedd y safonau gwasanaeth.
- Aethpwyd i 73.5% o apwyntiadau asesu.
- Ni chafodd 3.6% o fabanod a atgyfeiriwyd i gael eu hasesu eu gweld yn sgil peidio â mynd i'r apwyntiad.

## Canlyniadau

- Mewn babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, roedd nifer yr achosion o golled clyw parhaol a ddiagnoswyd sy'n fwy na 40 dBHL yn y ddwy glust oedd 1.0 fesul 1,000 o'r babanod hynny a sgriniwyd. Mae hyn ychydig yn llai na nifer yr achosion a gofnodwyd ers dechrau'r rhaglen, sef 1.2 fesul 1,000.
- Yr oedran cymedrig cadarnhau colled clyw oedd 9.9 wythnos.
- Yr oedran cymedrig gosod cymorth clyw oedd 16.5 wythnos.
- derbyniodd 81.5% o fabanod gymhorthion clyw o fewn pedair wythnos i gadarnhau colled clyw.

# 3 Data

## 3.1 Safonau

Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r safonau a osodwyd gan y rhaglen sgrinio i fonitro perfformiad.

**Tabl 1**:Safonau perfformiad y rhaglen

| Safonau NBHSW – Rhaglen Sgrinio | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Amcan** | **Meini Prawf** | **Safon Ofynnol** | **Gwerth Gwirioneddol** | **Bodlonwyd** | **Amrywiant o 2020/21** |
| 1 | Sicrhau bod cynifer o fabanod â phosibl yn cael cynnig sgrinio | Canran y babanod cymwys ac addas sy'n cael cynnig sgrinio | >= 99% o'r holl fabanod cymwys ac addas | **99.9%** | **Do** | **+6.7%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |
| 1b | I roi sicrwydd bod pob babi cymwys ac addas wedi cwblhau sgrinio. | Canran y babanod cymwys ac addas sy'n cwblhau sgrinio. (Cwmpas) | >=98% o fabanod cymwys ac addas | **99.0%** | **Do** | **+6.9%** |
| 2b | Rhoi sicrwydd bod pob babi cymwys ac addas y rhoddir cynnig sgrinio iddo yn cael ei wneud a'i dderbyn yn cael canlyniad sgrinio wedi'i gwblhau. | Canran y babanod cymwys ac addas sy'n cael cynnig sgrinio sy'n cwblhau sgrinio. (Canran y rhai a gafodd eu sgrinio) | >=98% o'r holl fabanod cymwys ac addas sy'n cael cynnig sgrinio | **99.0%** | **Do** | **+0.2%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |
| 3 | Sgrinio'r rhan fwyaf o fabanod o fewn wythnos gyntaf eu hoes | Canran y babanod a gafodd y prawf sgrinio cyntaf o fewn wythnos gyntaf eu hoes | >=70% o'r babanod iach hynny a sgriniwyd | **70.1%** | **Do** | **-5.8%** (Cafodd y safon ei dileu) |

| | Amcan | Meini Prawf | Safon Ofynnol | Gwerth Gwirioneddol | Bodlonwyd | Amrywiant o 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Sicrhau bod cynifer o fabanod â phosibl yn cwblhau'r rhaglen o fewn y cyfnodau amser a ddyrennir | Babanod iach - canran y babanod cymwys ac addas sy'n derbyn y cynnig sgrinio ac yn cwblhau sgrinio o fewn 28 diwrnod | >=90% o'r holl fabanod iach sy'n derbyn y cynnig sgrinio ac yn cwblhau sgrinio o fewn 28 diwrnod | **91.1%** | **Do** | **-2.7%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |
| | | Babanod risg uchel - canran y babanod cymwys ac addas sy'n derbyn y cynnig sgrinio ac yn cwblhau sgrinio erbyn 46 wythnos o feichiogrwydd | >=95% o'r holl fabanod risg uchel sy'n derbyn y cynnig sgrinio ac yn cwblhau sgrinio erbyn 46 wythnos o feichiogrwydd | **97.0%** | **Do** | **Safon newydd wedi'i hychwanegu at adroddiad 2021/22** |
| | | Babanod risg uchel mewn Uned Gofal Arbennig Babanod > 48 awr - canran y babanod cymwys ac addas sy'n cwblhau'r rhaglen sgrinio | >=98% o'r holl fabanod risg uchel a ymunodd â'r rhaglen sgrinio | **100.0%** | **Do** | **+0.1%** (Cafodd y safon ei dileu) |
| | | Yr holl fabanod - canran y babanod sy'n cwblhau'r rhaglen sgrinio | >=99% o'r holl fabanod sy'n ymuno â'r rhaglen sgrinio | **100.0%** | **Do** | **+0.1%** (Cafodd y safon ei dileu) |
| 5 | Lleihau nifer y babanod y mae angen ABR diagnostig arnynt y mae ganddynt glyw arferol | Canran y babanod y derbyniwyd y cynnig sgrinio ar eu cyfer, y canfyddir bod ganddynt glyw arferol yn dilyn asesiad diagnostig | <3% o fabanod y derbyniwyd y cynnig sgrinio ar eu cyfer, y canfyddir bod ganddynt glyw arferol yn dilyn asesiad diagnostig | **1.0%** | **Do** | **-0.2%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |

| | Amcan | Meini Prawf | Safon Ofynnol | Gwerth Gwirioneddol | Bodlonwyd | Amrywiant o 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Dechrau'r weithdrefn asesu (ABR diagnostig) mewn achosion priodol o fewn yr amser a ddyrennir | Babanod iach a atgyfeiriwyd sy'n cael cynnig apwyntiad asesu cychwynnol cyn 28 diwrnod o atgyfeiriad | >=90% o’r rhai a atgyfeiriwyd | **96.3%** | **Do** | **+1.0%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |
| | | Babanod risg uchel a atgyfeiriwyd sy'n cael cynnig apwyntiad asesu cychwynnol cyn 56 diwrnod o atgyfeiriad | >=90% o’r rhai a atgyfeiriwyd | **99.4%** | **Do** | **-0.1%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |
| | | Babanod iach a atgyfeiriwyd sy'n mynd i apwyntiad asesu cychwynnol cyn 28 diwrnod o atgyfeiriad | >=90% o’r rhai a atgyfeiriwyd | **84.7%** | **Naddo** | **Safon newydd wedi'i hychwanegu at adroddiad 2021-22** |
| | | Babanod risg uchel a atgyfeiriwyd sy'n mynd i apwyntiad asesu cychwynnol cyn 56 diwrnod o atgyfeiriad | >=90% o’r rhai a atgyfeiriwyd | **92.5%** | **Do** | **Safon newydd wedi'i hychwanegu at adroddiad 2021-22** |
| 7 | Cwblhau'r weithdrefn asesu o fewn yr amser a ddyrennir | Y babanod hynny sy'n cwblhau'r weithdrefn asesu cyn tri mis o'r atgyfeirio (mewn achosion priodol) | >=85% o’r rhai y mae angen asesiad arnynt | **91.6%** | **Do** | **-2.9%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |
| 8 | Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael eu sgrinio | Canran yr apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd i fabanod cymwys ac addas nad aethpwyd iddynt (babanod iach) | <=3% (yn cynnwys apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig) | **3.1%** | **Naddo** | **+1.3%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |

| | Amcan | Meini Prawf | Safon Ofynnol | Gwerth Gwirioneddol | Bodlonwyd | Amrywiant o 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael eu sgrinio | Canran y babanod iach y mae'r cynnig sgrinio yn cael ei wrthod ar eu cyfer | < 1% o fabanod iach | **0.3%** | **Do** | **-0.2%** (cymhwyswyd mân newid i eiriad y diffiniad ar gyfer y safon hon) |
| 10 | Atgyfeirio nifer priodol o fabanod i gael eu hasesu | Canran y babanod a sgriniwyd a gafodd eu hatgyfeirio am asesiad | Rhwng 1-2% o fabanod a sgriniwyd | **1.5%** | **Do** | **-0.1%** |
| 11 | Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael asesiad | Canran yr apwyntiadau asesu a gynigiwyd nad aethpwyd iddynt | < 10% (apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig) | **12.9%** | **Naddo** | **+5.6%** (Cafodd y safon ei dileu) |
| 12 | Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael asesiad | Canran y babanod sy'n cael eu hatgyfeirio am asesiad nad ydynt yn cael eu gweld | < 5% o fabanod a atgyfeiriwyd | **3.6%** | **Do** | **+0.8%** |
| 13 | Atgyfeirio nifer priodol o fabanod i gael sgrinio arall gan awdioleg (ymateb clir mewn un glust, babanod iach) | Canran y babanod a sgriniwyd sy'n cael eu hatgyfeirio | < 1% | **1.0%** | **Naddo** | **+0.5%** (Cafodd y safon ei dileu) |
| 16 | Darparu gwybodaeth i hyrwyddo dewis hyddysg. | Canran y mamau sy'n darparu ymatebion cadarnhaol ar is-raddfa wybodaeth arolwg defnyddwyr. Gall y meini prawf ar gyfer cynnwys yn yr arolwg gael eu dewis er mwyn cymharu profiadau teuluoedd | >90% ymatebion cadarnhaol gan famau sy'n cwblhau'r arolwg defnyddwyr | **Data ddim ar gael. Cafodd arolygon defnyddwyr eu hoedi yn ystod pandemig Covid-19 i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint o ffurflenni arolwg.** | | |
| 17 | Gwerthuso boddhad mamau ar y rhaglen sgrinio | | >= 95% o famau'n cwblhau holiadur arolwg defnyddwyr | **Data ddim ar gael. Cafodd arolygon defnyddwyr eu hoedi yn ystod pandemig Covid-19 i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint o ffurflenni arolwg.** | | |

## 3.2 Cwmpas

*Safon 1: ≥ 99% o fabanod cymwys ac addas yn cael cynnig sgrinio*

**Tabl 2**:Cyfanswm nifer y genedigaethau byw yn ôl Bwrdd Iechyd, babanod cymwys ac addas, nifer a chyfran a gydsyniodd ac a brofwyd


| Bwrdd Iechyd | Genedigaethau | Cymwys ac Addas | Cydsyniwyd a Phrofwyd | % Profwyd o'r Cymwys ac Addas | Cyfanswm a Gynigiwyd | % a Gynigiwyd o'r Cymwys ac Addas |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 6225 | 6068 | 6012 | 99.1% | 6068 | 100.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 6673 | 6447 | 6404 | 99.3% | 6446 | 100.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 5228 | 5040 | 4997 | 99.1% | 5038 | 100.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 4368 | 4292 | 4240 | 98.8% | 4285 | 99.8% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 3224 | 3128 | 3083 | 98.6% | 3126 | 99.9% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1162 | 1113 | 1099 | 98.7% | 1113 | 100.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 3522 | 3399 | 3345 | 98.4% | 3394 | 99.9% |
| **Cymru Gyfan** | **30402** | **29487** | **29180** | **99.0%** | **29470** | **99.9%** |

Mae'r safon hon yn cael ei chyrraedd ar gyfer babanod ar draws Cymru gyfan.


## 3.3 Amseroldeb y profion

*Safon 3: ≥70% y babanod iach a gafodd eu sgrinio gan y prawf sgrinio cyntaf o fewn wythnos gyntaf oes*

**Graff 1:** Amseroldeb babanod iach sy'n cael eu prawf cyntaf yn yr ysbyty




**Graff 2:** Amseroldeb babanod iach sy'n cael eu prawf cyntaf yn y gymuned




Cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer babanod iach a gafodd brawf cychwynnol o fewn saith diwrnod i'w genedigaeth mewn unrhyw leoliad yw 70.1%. Mae hyn yn ostyngiad o 5.8% ers y flwyddyn flaenorol.

Roedd 610 o fabanod iach dros chwe wythnos oed cyn eu prawf cychwynnol. Mae hyn yn gynnydd o 203 o fabanod o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd babanod o fewn ardaloedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro wedi eu cynrychioli'n anghymesur yn y ffigurau hyn, sy'n adlewyrchu'r cyfnodau byrrach o ran aros mewn unedau mamolaeth ysbytai, gan leihau'r cyfle i gynnig sgrinio ar y safleoedd hyn a chynyddu'r galw am apwyntiadau clinig. Roedd llai o fynediad i leoliadau clinigau cymunedol a'r mesurau diogelwch yn eu lle wedi cynyddu'r amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau clinig drwy leihau'r capasiti cyffredinol. Er bod hyn yn wir ym mhob ardal bwrdd iechyd, effeithiwyd yn arbennig ar Bowys oherwydd y diffyg darpariaeth NBHSW mewn ysbytai.

Cafodd y dangosydd hwn ei ddileu fel rhan o adolygiad safonau 2021-22 gan ei fod yn cefnogi cynllunio cyflawni gweithredol, yn hytrach na bod yn safon y cytunwyd arni ar gyfer y rhaglen.  Defnyddir Safon 4 i fonitro amseroldeb cwblhau sgrinio.

*Safon 4: ≥90% o fabanod iach cymwys ac addas sy'n ymuno â'r rhaglen sgrinio yn cwblhau sgrinio o fewn 28 diwrnod*

**Graff 3:** Babanod iach a gwblhaodd sgrinio o fewn 28 diwrnod




Ledled Cymru, cwblhaodd 91.1% o fabanod iach sgrinio o fewn 28 diwrnod a gyrhaeddodd y safon gwasanaeth ond roedd 2.7% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae sgrinio wedi'i gwblhau pan fydd y babi'n cael ei ryddhau neu ei atgyfeirio i gael asesiad. Effeithiodd tarfu COVID-19 ar berfformiad yn

erbyn y safon hon. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd galw cynyddol am apwyntiadau clinigau cymunedol a llai o gapasiti yn y clinigau hyn, a oedd yn ymestyn amseroedd aros. Cafodd y diffiniad o'r safon hon ei addasu i ddarparu mwy o eglurder, gyda geiriad y safon flaenorol yn cyfeirio at 'bedair wythnos' yn hytrach na 28 diwrnod.

## 3.4 Presenoldeb mewn apwyntiadau sgrinio i fabanod iach

*Safon 8: ≤ 3% o apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd nad aethpwyd iddynt (apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig)*

*Safon 9: < 1% o fabanod iach yn gwrthod y cynnig sgrinio*

**Tabl 3.i:** Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio Cymru gyfan

| Lleoliad Sgrinio | Yn bresennol (%) | Nad aethpwyd iddynt (%) | Canslwyd (%) | Gwrthododd y Rhiant (%) | Anhysbys (%) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 29833 (91.6%) | 997 (3.1%) | 1669 (5.1%) | 86 (0.3%) | 0 (0.0%) | 32585 |

Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i 1 lle degol
Mae'r ffigurau'n cyfeirio at nifer yr apwyntiadau, gall babanod unigol ymddangos fwy nag unwaith

Mae'r gyfradd nad oedd yn mynd i'w hapwyntiad ychydig dros y safon eleni ar 3.1%. Mae apwyntiadau sydd wedi'u canslo i fyny eleni o 3.0% i 5.1%. Drwy gydol 2021-22, roedd mesurau diogelwch Covid, a oedd yn cynnwys brysbennu cyn clinig ar gyfer symptomau Covid, yn eu lle. Cyfrannodd hyn at fwy o ganslo ac achosion lle nad oeddent yn mynd i'w hapwyntiad.

Mae Safon 8 yn cyfeirio at nifer yr apwyntiadau unigol sydd wedi'u colli, felly gall unigolion ymddangos fwy nag unwaith yn y tabl.

Cafodd Safon 9 ei diwygio i ganolbwyntio ar ganran y babanod lle cafodd y cynnig sgrinio ei wrthod ar eu cyfer, yn hytrach na chanran yr apwyntiadau unigol a wrthodwyd. Mae'r tabl uchod yn dangos perfformiad drwy ddefnyddio'r hen ddiffiniad. Dim ond mân newidiadau sy'n deillio o'r diffiniad newydd, gyda'r achosion o wrthod gan rieni wedi'u cofnodi ar gyfer 85 o fabanod, a'r ganran yn parhau heb ei newid (0.3%).

**Tabl 3.ii:** Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio fesul Bwrdd Iechyd


| Lleoliad Sgrinio | Yn bresennol (%) | Nad aethpwyd iddynt neu a Ganslwyd (%) | Gwrthodwyd y Rhiant (%) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 92.3% | 7.5% | 0.2% | 6372 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 94.0% | 5.9% | 0.1% | 7122 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro | 93.5% | 6.1% | 0.3% | 6147 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 88.9% | 10.9% | 0.2% | 5452 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 87.2% | 12.0% | 0.8% | 3386 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 88.4% | 10.9% | 0.8% | 783 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 90.7% | 9.1% | 0.2% | 3323 |

Mae'r ffigurau'n cyfeirio at nifer yr apwyntiadau, gall babanod unigol ymddangos fwy nag unwaith

## 3.5 Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio

*Safon 4: ≥ 98% o'r holl fabanod risg uchel a ymunodd â'r rhaglen sgrinio yn cwblhau sgrinio*

**Graff 4:** Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio




100% o fabanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio. Cafodd y safon hon ei dileu o ran defnydd, gan fod dangosyddion eraill yn dangos cyfran y babanod sy'n cwblhau sgrinio o fewn cyfnodau amser penodedig.

## 3.6 Canlyniadau Sgrinio

*Safon 10: Rhwng 1 a 2 % o fabanod a sgriniwyd a gafodd eu hatgyfeirio am asesiad*

*Safon 13: <1 % o fabanod a sgriniwyd a atgyfeiriwyd i awdioleg am ragor o sgrinio (babanod iach ag ymateb clir mewn un glust)*

**Tabl 4:** Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod iach

| Lleoliad Sgrinio | Rhyddhawyd | Atgyfeiriwyd am Asesiad | Atgyfeiriwyd i Awdioleg | Atgyfeiriwyd am Brawf Ymddygiadol |
|---|---|---|---|---|
| Y tu allan i Gymru | 96.4% | 0.4% | 2.4% | 0.9% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 95.9% | 1.7% | 1.5% | 1.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 97.8% | 0.6% | 0.9% | 0.7% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 96.7% | 1.2% | 1.7% | 0.4% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 97.8% | 1.3% | 0.4% | 0.5% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 97.8% | 1.1% | 0.6% | 0.6% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 97.3% | 1.0% | 0.5% | 1.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 98.1% | 0.5% | 0.3% | 1.0% |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **97.2%** | **1.1%** | **1.0%** | **0.7%** |

Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i 1 lle degol

Mae'r tabl uchod yn eithrio babanod risg uchel ac felly mae'n dangos bod 1.1% o fabanod iach yn cael eu hatgyfeirio am Asesiad yn dilyn dim ymateb clir dwyochrog. Mae atgyfeiriadau i awdioleg ar gyfer sgrinio arall yn dilyn canlyniad sgrinio clir mewn un glust ar 1.0% yn gyffredinol.

Cafodd Safon 13 ei dileu o ran defnydd yn yr adolygiad safonau; gan adlewyrchu bod rhyddid dewis rhieni ynghylch a ofynnir am sgrinio arall gan Awdioleg yn achos baban iach sydd ag ymateb clir un glust.

**Tabl 5:** Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod risg uchel

| Lleoliad Sgrinio | Rhyddhawyd | Atgyfeiriwyd am Asesiad | Atgyfeiriwyd am Brawf Ymddygiadol |
|---|---|---|---|
| Y tu allan i Gymru | 91.7% | 5.6% | 2.8% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 92.1% | 7.0% | 0.9% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 94.7% | 3.2% | 2.1% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro | 86.7% | 12.0% | 1.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 91.5% | 7.4% | 1.1% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 92.5% | 6.9% | 0.6% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 66.7% | 33.3% | 0.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 93.4% | 6.1% | 0.4% |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **91.7%** | **7.1%** | **1.2%** |

Er bod yr atgyfeiriadau cyffredinol ar gyfer asesu yn cyrraedd y safon o 1-2% o fabanod a sgriniwyd, mae, fel y disgwylir, canran uwch o fabanod risg uchel yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad. Mae atgyfeiriadau ar gyfer asesu ar gyfer babanod risg uchel yn cynnwys y rhai heb ymateb clir mewn un glust yn ogystal â'r rhai heb ymateb clir dwyochrog.

## 3.7 Atgyfeiriadau ar gyfer asesu

*Safon 10: Rhwng 1 a 2% o fabanod a sgriniwyd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad*

**Tabl 6:** Atgyfeiriadau ar gyfer asesu

| Lleoliad | Cyfanswm a Sgriniwyd | Atgyfeiriwyd am asesiad | % o Fabanod a Atgyfeiriwyd |
| --- | --- | --- | --- |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 6012 | 121 | **2.0%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 6404 | 50 | **0.8%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 4997 | 94 | **1.9%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 4240 | 72 | **1.7%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 3083 | 42 | **1.4%** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1099 | 11 | **1.0%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 3345 | 37 | **1.1%** |
| **Cymru Gyfan** | **29180** | **427** | **1.5%** |

Mae'r dadansoddiad uchod yn seiliedig ar leoliad sgrinio yn hytrach na lleoliad asesu, dylid nodi y bydd rhai babanod yn cael eu hasesu mewn ardal Bwrdd Iechyd gwahanol i'r hyn lle y cawsant eu sgrinio.

Roedd 39 o fabanod ychwanegol a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol i gael eu hasesu o ganlyniad i benderfyniad meddygol heb gwblhau sgrinio yn gyntaf.

## 3.8 Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu - babanod iach a risg uchel

*Safon 11: <10% sy'n cael cynnig apwyntiadau asesu heb fynd i'r apwyntiad (apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig)*

**Tabl 7.i:** Presenoldeb Cymru gyfan mewn apwyntiadau asesu (gan gynnwys clinig cymunedol ac ysbyty y tu allan i Gymru)

| Bwrdd Iechyd | Aethpwyd | Canslwyd | Gwrthododd y Rhiant | Nad aethpwyd iddynt | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cymru Gyfan | 563 (73.5%) | 102 (13.3%) | 2 (0.3%) | 99 (12.9%) | 766 |

Nid yw'r safon ar gyfer Cymru gyfan wedi ei chyrraedd at 12.9%, sef cynnydd o 5.6% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Defnyddiodd yr holl wasanaethau frysbennu cyn clinig i atal lledaeniad Covid, a gynyddodd y cyfraddau canslo a heb fynychu.

**Tabl 7.ii:** Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu yn ôl Bwrdd Iechyd

| Bwrdd Iechyd | Aethpwyd | % Nad aethpwyd iddynt |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 144 | **16.8%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 81 | **13.5%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro | 139 | **11.9%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 106 | **9.3%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 54 | **0.0%** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 38 | **14.3%** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1 | **0.0%** |

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae amrywioldeb rhwng byrddau iechyd. Mae gwaith yn parhau yn lleol i leihau nifer y babanod nad ydynt yn mynd i'r apwyntiadau asesu. Ar gyfer y cyfnod hwn, defnyddiodd safleoedd ysbyty unigol fesurau diogelwch Covid gwahanol ar adegau gwahanol, a gallai hyn fod wedi effeithio ar bresenoldeb.

Fel rhan o'r adolygiad safonau, mae Safon 11 wedi'i dileu gan fod Safon 12 yn ystyried yr achosion cyffredinol o apwyntiadau nad aethpwyd iddynt sy'n arwain at beidio â gweld babanod ar gyfer asesiad. Mae Safon 11 yn canolbwyntio mwy ar faterion gweithredol ac mae'n berthnasol i wasanaethau Awdioleg yn hytrach na NBHSW.

## 3.9 Yr amser a gymerir i ddechrau a chwblhau asesiadau

*Safon 6: Cafodd ≥ 90% o fabanod iach gynnig apwyntiad asesu cychwynnol ac aethant i'r apwyntiad hwn cyn 28 diwrnod o'r atgyfeiriad*
*Safon 6: Cafodd ≥ 90% o fabanod Risg Uchel gynnig apwyntiad asesu cychwynnol ac aethant i'r apwyntiad hwn cyn 56 diwrnod o'r atgyfeiriad*

**Tabl 8:** Amser a gymerir i ddechrau asesiad

| | % a gafodd gynnig Asesiad o fewn Amserlenni Penodol | | % a aeth i'r apwyntiad o fewn Amserlenni Penodol | |
|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad Asesu** | **Babanod iach** | **Babanod risg uchel** | **Babanod iach** | **Babanod risg uchel** |
| Clinig Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog | 100.0% | - | 100.0% | - |
| Adran Awdioleg Plant Ysbyty Athrofaol Cymru | 66.7% | - | 100.0% | - |
| Ysbyty Glan Clwyd | 92.3% | 100.0% | 76.9% | 100.0% |
| Ysbyty Gwynedd | 100.0% | 100.0% | 87.5% | 100.0% |
| Ysbyty Castell-nedd Port Talbot | 100.0% | 100.0% | 100.0% | 100.0% |
| Ysbyty Nevill Hall | 100.0% | 90.9% | 91.2% | 58.3% |
| Ysbyty Tywysoges Cymru | 100.0% | 100.0% | 100.0% | 100.0% |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 98.2% | 100.0% | 81.5% | 75.0% |
| Canolfan Blant Serennu | 100.0% | 100.0% | 50.0% | 100.0% |
| Ysbyty Singleton | 93.3% | 100.0% | 75.0% | 88.9% |
| Ysbyty Athrofaol Cymru | 98.4% | 100.0% | 90.3% | 100.0% |
| Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | 100.0% | 100.0% | 100.0% | 100.0% |
| Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg | 100.0% | - | 100.0% | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ysbyty Maelor Wrecsam | 100.0% | 100.0% | 88.9% | 100.0% |
| Adran Cleifion Allanol Ysbyty Cwm Cynon | 86.4% | 100.0% | 66.7% | 95.5% |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **96.3%** | **99.4%** | **84.7%** | **92.5%** |

Mae ffigurau Cymru Gyfan yn dangos gwelliant bach mewn perfformiad yn y grŵp babanod iach o gymharu â 2020-21. Mae'r ffigur Risg Uchel yn ymwneud ag 1 babi yn unig allan o'r safon.

Mae'r diffiniadau ar gyfer safon 6 wedi'u diwygio i roi mwy o eglurder ynghylch dechrau'r weithdrefn asesu. Maent bellach yn gwahaniaethu rhwng cynnig apwyntiad asesu amserol, sydd o fewn rheolaeth gwasanaethau Awdioleg, a'r adeg pan fydd babi yn mynd i apwyntiad asesu clinigol. Mae adroddiadau blaenorol wedi cynnwys perfformiad yn erbyn y safon cynnig apwyntiad ac amserlenni manwl mewn wythnosau yn hytrach na'r nifer o ddiwrnodau sy'n fwy penodol. Dylid nodi bod yr amserlen sy'n cael ei monitro ar gyfer y safonau hyn yn dechrau o ddyddiad canlyniad y sgrinio sy'n ysgogi'r atgyfeiriad, yn hytrach na derbyn yr atgyfeiriad gan Awdioleg.

*Safon 7: ≥ 85% o fabanod yn cwblhau asesiad cyn tri mis o'r atgyfeiriad*
*Safon 12: < 5% o fabanod a atgyfeiriwyd i gael eu hasesu heb eu gweld*

**Tabl 9.i:** Amser Cymru Gyfan a gymerwyd i gwblhau'r asesiad
Mae'n cynnwys clinigau cymunedol ac ysbytai y tu allan i Gymru

| Lleoliad Asesu | Ni aethpwyd erioed | Aethpwyd ond ni aethpwyd i'r prawf terfynol | Heb Gwblhau Eto | Cwblhawyd < 3 Mis | Cwblhawyd 3+ Mis |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cymru Gyfan | 3.6% | 2.8% | 0.2% | 91.6% | 1.7% |

Mae Safon 7 yn parhau i gael ei chyrraedd ond gyda gostyngiad o 2.9% o gymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer babanod sy'n cwblhau asesiad o fewn tri mis. Roedd cynnydd o 0.8% yn nifer y babanod a gafodd eu hatgyfeirio ond heb eu gweld.

Mae'r diffiniad o Safon 7 wedi'i ddiwygio, ac mae bellach yn cyfeirio at gwblhau'r asesiad clyw cyn 3 mis o'r atgyfeiriad. Yn flaenorol, mae'r safon wedi asesu 3 mis o'r prawf sgrinio terfynol. Cafodd hyn ei ddiwygio i gynnwys y babanod hynny a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol i gael eu hasesu heb sgrinio.

**Tabl 9.ii:** Amser a gymerir i gwblhau asesiad fesul Ysbyty

| Lleoliad Asesu | Ni aethpwyd erioed | Aethpwyd ond ni aethpwyd i'r prawf terfynol | Heb Gwblhau Eto | Cwblhawyd < 3 Mis | Cwblhawyd 3+ Mis |
|---|---|---|---|---|---|
| Clinig Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 100.0% | 0.0% |
| Adran Awdioleg Plant, Ysbyty Athrofaol Cymru | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 100.0% | 0.0% |
| Ysbyty Glan Clwyd | 0.0% | 8.7% | 0.0% | 87.0% | 4.3% |
| Ysbyty Gwynedd | 0.0% | 5.0% | 0.0% | 95.0% | 0.0% |
| Ysbyty Castell-nedd Port Talbot | 8.3% | 0.0% | 0.0% | 91.7% | 0.0% |
| Ysbyty Nevill Hall | 4.1% | 6.1% | 0.0% | 81.6% | 8.2% |
| Ysbyty Tywysoges Cymru | 11.1% | 0.0% | 0.0% | 88.9% | 0.0% |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 5.1% | 1.3% | 0.0% | 91.0% | 2.6% |
| Canolfan Blant Serennu | 0.0% | 20.0% | 0.0% | 80.0% | 0.0% |
| Ysbyty Singleton | 0.0% | 3.8% | 0.0% | 92.3% | 3.8% |
| Ysbyty Athrofaol Cymru | 4.5% | 0.9% | 0.9% | 93.7% | 0.0% |
| Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 100.0% | 0.0% |
| Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 100.0% | 0.0% |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | 5.6% | 11.1% | 0.0% | 83.3% | 0.0% |
| Adran Cleifion Allanol Ysbyty Cwm Cynon | 4.5% | 1.5% | 0.0% | 94.0% | 0.0% |

## 3.10 Cadarnhau colled clyw

Cyfanswm nifer y babanod a nodwyd â cholled clyw dwyochrog cymedrol neu uwch parhaol yng Nghymru a anwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yw 29. O ran nifer yr achosion, roedd 1.0 fesul 1,000 o fabanod a sgriniwyd.

**Tabl 10:** Nifer y babanod ag achosion a gadarnhawyd o golled clyw a anwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn ôl Rhanbarth.

Mae colled clyw a gadarnhawyd fel y'i diffinnir uchod. Dylid nodi bod rhanbarth De Cymru yn cynnwys dwysedd poblogaeth uchaf rhanbarthau NBHSW.

| Rhanbarth | Cyfanswm |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 5 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 8 |
| De Cymru | 16 |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **29** |

Mae Tabl 11 yn dangos oedran cyfartalog a chanolrif o ran cadarnhau colled clyw mewn babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

**Tabl 11:** Oedran cadarnhau colled clyw

| Bwrdd Iechyd | Cyfartalog (wythnosau) | Canolrif (wythnosau) |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 11.7 | 9.0 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 10.8 | 9.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 7.9 | 7.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 9.0 | 10.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 8.8 | 7.1 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 14.6 | 14.6 |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **9.9** | **8.7** |

## 3.11 Gosod cymorth clyw

### Oedran cyfartalog a chanolrif gosod cymorth clyw yn ôl Bwrdd Iechyd


Mae Tabl 12 yn dangos oedran cyfartalog a chanolrif gosod cymorth clyw babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae'r ffigurau hyn yn caniatáu ar gyfer cynamseroldeb.

**Tabl 12:** Oedran pan osodwyd y cymorth clyw

| Bwrdd Iechyd | Cyfartalog (wythnosau) | Canolrif (wythnosau) |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 21.4 | 12.1 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 23.9 | 16.1 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro | 10.4 | 10.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 12.6 | 11.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 10.7 | 9.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 24.9 | 24.9 |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **16.5** | **11.6** |

Mae'r ffigurau yn Nhablau 11 ac 12 yn cael eu heffeithio gan nifer bach o fabanod a nodwyd ym mhob Bwrdd Iechyd. Gall ffactorau clinigol a chymdeithasol ddylanwadu ar amseru cadarnhau colled clyw a gosod cymorth clyw.

**Graff 5:** Gosod cymorth clyw o fewn pedair wythnos i nodi colled clyw yn ôl Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021 – 2022




Cafodd 81.5% o fabanod yng Nghymru gymorth clyw wedi ei osod o fewn pedair wythnos i'w nodi.

Gall gosod cymorth clyw yn brydlon ar gyfer babanod a nodwyd â cholled clyw gael ei ddylanwadu gan ffactorau clinigol a chymdeithasol ac nid yw bob amser yn adlewyrchu materion o ran darparu gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd gwasanaethau awdioleg yn destun materion staffio a chyfyngiadau capasiti yn gysylltiedig â'r pandemig.

## 3.12 Deilliant, Sensitifrwydd, Penodoldeb a Gwerthoedd Rhagfynegol

Mae'r deilliant o'r rhaglen yn nodi bod nifer yr achosion a ganfuwyd yn gysylltiedig â nifer y babanod a sgriniwyd yn 1:809. Sensitifrwydd y rhaglen yw 90.3% gyda phenodoldeb o 98.8%. Gwerth rhagfynegol positif y sgrinio yw 9.3%.

Mae hyn yn golygu bod y broses sgrinio wedi gweithio'n dad i nodi'r babanod y mae angen asesiad diagnostig arnynt. Fodd bynnag, gan fod byddardod parhaol dim ond yn effeithio ar nifer bach o fabanod a bydd gan lawer o fabanod hylif dros dro o hyd yn y clustiau ar ôl eu geni, bydd y rhan fwyaf yn cael eu hasesu fel rhai y mae ganddynt glyw boddhaol pan fyddant yn cael prawf diagnostig

# 4 Diffiniadau

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfrifiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Bwrdd Iechyd**
Cymerir data sgrinio o'r system Clyw Babanod Cymru Gyfan. Dyrennir babanod i Fyrddau Iechyd yn seiliedig ar breswylfa, oni nodir bod y lleoliad yn seiliedig ar lle y digwyddodd y sgrinio. Nid ydym yn cadw data ar fan geni.

**Babanod cymwys**
Babanod a anwyd i famau sy'n preswylio dros dro neu'n barhaol yng Nghymru ar adeg geni a babanod sy'n symud i Gymru o dan chwe wythnos oed.

**Yn addas ar gyfer profi**
Mae babanod yn addas ar gyfer profi pan fyddant hwy a'u mam yn iach. Mae babanod sy'n cael eu geni cyn eu hamser yn ddelfrydol yn addas ar gyfer eu profi pan fydd oedran yn ystod beichiogrwydd y baban dros 36 wythnos, ond gellir cynnal profion o 34 wythnos ymlaen.

**Canran y rhai a gafodd eu sgrinio**
Cyfran y babanod cymwys ac addas sy'n cael eu profi.

**Babanod risg uchel**
Babanod sydd wedi treulio mwy na 48 awr yn barhaus mewn Uned Gofal Arbennig Babanod/Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig.

**Babanod iach**
Pob babi nad yw'n cael ei ddosbarthu fel risg uchel.

**Atgyfeirio ar gyfer ailsgrinio mewn Awdioleg**
Cais rhieni ar gyfer ailsgrinio yn dilyn canlyniad ymateb clir un glust ar gyfer baban iach wrth gwblhau sgrinio.

**Prawf Ymddygiadol wedi'i dargedu**
Asesiad clyw i fabanod a gynhelir gan awdiolegwyr ar oedran datblygiadol o naw mis. Cynigir hyn i fabanod nad ydynt yn cwblhau sgrinio nac asesiad, babanod y mae eu rhieni yn gofyn am waith dilynol i faban iach gydag ymateb clir un glust, a babanod sydd wedi nodi ffactorau risg ar gyfer colled clyw.

**Deilliant**
Nifer y babanod â chanlyniad dilynol sy'n bodloni'r diffiniad o achos targed, fesul 1,000 o fabanod a sgriniwyd. Yr achos targed ar gyfer NBHSW yw colled clyw dwyochrog parhaol ar lefel sy'n uwch na 40 dBHL ar draws yr ystod amledd 500Hz, 1KHz, 2kHz a 4KHz.

**Sensitifrwydd**
Y nifer ag achosion a gadarnhawyd o golled clyw a nodwyd yn gywir fel rhai positif mewn prawf sgrinio.

**Penodoldeb**
Y nifer a gadarnhawyd heb golled clyw a nodwyd yn gywir fel rhai negyddol mewn prawf sgrinio.

**Gwerth Rhagfynegol**
Cyfran yr achosion a atgyfeiriwyd yn dilyn prawf sgrinio positif y canfuwyd eu bod wedi cael colled clyw a bod hyn wedi ei gadarnhau.

# 5 Tîm Cynhyrchu

**Tîm Cynhyrchu:**

| | |
| --- | --- |
| Jacqui Evans | Rheolwr Sgrinio Babanod, Gogledd Cymru |
| Hayley Mills | Cydlynydd Rhaglen, Gogledd Cymru |
| Jackie Harding | Cydlynydd Rhaglen, De Cymru |
| Jude Kay | Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Clyw Babanod |
| Dr Sikha de Souza | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Sgrinio |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Kate Lilly | Uwch-arbenigwr Gwybodeg a Data |
| Christie Redman | Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| | |
| Rhys George | Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg) |

Ni chafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol